# CYNGOR

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 16 Hydref 2019**

| | |
|---|---|
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, S.apDafydd, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, A.J.Richards, P.D.Richards, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, A.Manchipp, N.Pearce a/ac S.Phillips |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER.**

Roedd yn bleser gan y Maer gyhoeddi bod Gaynor Richards MBE wedi'i phenodi'n Ddirprwy Arglwydd Raglaw, yn effeithiol o 11 Medi 2019.

2. **DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR A'U CADARNHAU OS YSTYRIR BOD HYN YN ADDAS:**

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau cofnodion cyfarfod y cyngor gynhaliwyd ar 4 Medi 2019 fel cofnod cywir.

3. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-22 (ADRODDIAD CYNNYDD LLAWN) AR GYFER CYFNOD: 1 EBRILL 2018 I 31 MAWRTH 2019**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2018-2022 a gyflwynwyd i'r cyngor gan y Cabinet ar 2 Hydref 2019. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn erbyn 3 amcan lles yr awdurdod a fanylwyd yng Nghynllun Corfforaethol "Llunio CNPT".

Roedd yn bleser nodi bod mwyafrif y camau gweithredu ar y trywydd cywir a bod staff wedi ymdrin â phethau megis tirlithriadau etc. Roedd y perfformiad wedi'i gynnal yn y rhan fwyaf o ardaloedd, oedd yn gyflawniad sylweddol o ystyried y toriadau i adnoddau dynol ac ariannol.

Yn ogystal, lle nodwyd bod perfformiad wedi disgyn, roedd mesurau ar waith i fynd i'r afael â hyn a byddai'r rhain yn cael eu monitro dros weddill cyfnod y flwyddyn ariannol.

Aeth yr Arweinydd ati i amlygu prif gyflawniadau'r awdurdod a oedd yn cynnwys cwblhau cam cyntaf Rhaglen Gwella Ysgolion yr 21ain Ganrif a gwaith y Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Roedd y rhain yn erbyn y mesurau cyni a osodwyd gan y cyngor, sef llai o gyllideb a staff. Cefnogwyd hyn gan yr aelodau a oedd wedi crybwyll y canlynol:

Mewn perthynas ag Amcan Lles 3, mynegwyd pryder ynghylch nad oedd trafnidiaeth yn gwella, yn enwedig yn ardaloedd y cwm ac efallai y bydd Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe'n darparu cyfle i fynd i'r afael â hyn. Nodwyd eu bod yn aros am gyhoeddiad mewn perthynas â dadreoli bysus.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2018-2022 fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

4. **DIWYGIADAU I AMSERLEN CYFARFODYDD 2019/20 A NEWIDIADAU I AELODAETH PWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL**

**PENDERFYNWYD:** 1. Canslo'r Pwyllgorau Personél ar gyfer 21 Hydref 2019, 13 Ionawr a 6 Ebrill 2020;

2. Cynnal cyfarfodydd Pwyllgor Craffu/Bwrdd Cabinet Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles bob pedair wythnos o 1 Ionawr 2020;

3. Y Cynghorydd S Renkes i gymryd lle'r Cynghorydd A Aubrey ar y Pwyllgor Cynllunio;

4. Y Cynghorydd S Renkes i gymryd lle'r Cynghorydd A Aubrey ar y Pwyllgor Archwilio;

5. Y Cynghorydd D Keogh i gymryd lle'r Cynghorydd S M Penry ar Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe.

5. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

6. **DERBYN Y CANLYNOL AC UNRHYW GWESTIYNAU A OFYNNIR GAN YR AELODAU, NEU UNRHYW FATERION SYDD I'W CODI GAN AELODAU'R CABINET:-**

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Cabinet | 31 Gorffennaf 2019 |
| Addysg, Sgiliau a Diwylliant | 10 Gorffennaf 2019 |
| Strydlun a Pheirianneg | 20 Medi 2019 |
| Adfywio a Datblygu Cynaliadwy | 6 Medi 2019 |

**CHAIRPERSON**